

modd cael y gyfrol am £20 trwy archebu nifer ohonynt. Felly, os oes rhywun am brynu copi am £20, rhwch eich enw i'r Gweinidog ar unwaith (erbyn nos Sul nesaf, Gorffennaf 12). Ffoniwch neu anfonwch neges e-bost (01286 872390 neu john.cilfynydd@btinternet.com).

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Nos Fercher, Gorffennaf 8: Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Bethel, Pentrefoelas am 7.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Gorffennaf 12: Oedfa am 9.30 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog ac Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Oedfa am 5.0 o'r gloch yng ngofal y Parchg Idris Thomas.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Gorffennaf 12: Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10.00 o'r gloch. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Gorffennaf 12: Ni chynhelir oedfa.

BETHLEHEM

Nos Fawrth, Gorffennaf 7: Swper Haf Bwrilwm yng Nghlwb Golff Caernarfon.

Y mis nesaf - Deiniolen

Gorffennaf 5

9.30 a.m. - Mr John H Hughes
10.15 a.m. - Ysgol Sul

Gorffennaf 12

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 pm - Y Parchg Idris Thomas

Dydd Sul, Gorffennaf 12: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog a chymerir rhan gan blant ac aelodau'r Ysgol Sul.

CARMEL

Dydd Sul, Gorffennaf 12: Cyfle i uno i addoli yn oedfa MOLI yn Capel Coch, Llanberis am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Nos Iau, Gorffennaf 9: Cwpan CIC yn Abererch am 5.30 o'r gloch.

Dydd Gwener, Gorffennaf 10: Bydd Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Suliau'r Haf

Cyhoeddir rhestr lawn o Suliau'r haf o fewn yr Ofalaeth yn Gronyn y Sul nesaf. Os oes unrhyw newid i'w wneud i'r rhestr Suliau, rhwch wybod i mi yn ystod yr wythnos os gwelwch yn dda.

Gwyliau Blynyddol

Bydd y Gweinidog yn cychwyn ei fis o wyliau ddydd Gwener, Gorffennaf 17.

Y mis nesaf - Llanberis

Gorffennaf 5

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

Gorffennaf 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 645: Dydd Sul, 05 Gorffennaf, 2015

Colledigion rhyfel

Aeth bron i ddeng niwrnod heibio ers y lladdfa ar y traeth yn Sousse, Tiwnisia. Mae'r galar yn fawr, a'r cydymdeimlad â phawb a ddiodefodd yn ddiffuant. Dros yr wythnos ddiwethaf, clywsom lawer am rai o'r bobl a ddaliwyd yn y gyflafan neu a oedd yn ddychrynlyd o agos ati. Yn naturiol, mae pobl wedi dychryn o weld pobl ar wyliau ar draeth braf yn cael eu saethu a'u lladd.

Bu trafod mawr ar hyn a ddigwyddodd. Roedd llawer o'r hyn a ysgrifenydwyd ac a ddywedwyd yn ddoeth a chywir, ond roedd ymateb y Prif Weinidog David Cameron yn codi braw amaf wrth iddo fynnu y byddai Prydain yn mynd i'r afael â'r bobl a oedd yn gyfrifol am y lladdfa yn Sousse. Yr hyn sy'n drist yw'r gwrthodiad i ystyried y gallasai cyrchoedd milwrol y degawd diwethaf a'r bomio sy'n parhau yn Irac a Syria fod mewn rhyw ffordd yn gyfrifol am yr hyn a welwyd ar draeth Sousse.

Yn ôl Mr Cameron a llu o wleidyddion o wahanol bleidiau, mae'r rhyfel yn erbyn terfysgaeth, a ymladdwyd ers yr ymosodiad ar y Ddau Dŵr yn Efrog Newydd yn 2001, yn parhau. O'r cychwyn, bu'n anodd iawn gweld pa ystyr oedd i rhyfel yn erbyn syniadau a ffordd o feddwl. Ond a derbyn mai dyna a gafwyd ers pedair blynedd ar ddeg, mae'n anodd deall pam nad yw'r Prif Weinidog yn derbyn bod a wnelo lladdfa Sousse â chyrchoedd bomio awyrennau'r Gorllewin yn Irac a Syria. Os mai rhyfel yn erbyn terfysgaeth

sydd gennym, onid tristwch pethau yw na ddylem synnu os yw terfysgaeth yn codi drwn creulon yn ôl, boed hynny yn enw Al Qaeda neu'r Wladwriaeth Islamaidd (IS). Oherwydd onid hanfod rhyfel yw bod y naill ochr a'r llall yn taro ac anafu a lladd ei gilydd? A thra pery'r bomio, fe bery'r ymosodiadau hefyd yn y mannau annisgwyl ac ar yr adegau annisgwyl, gan mai peth felly yw rhyfel o hyd.

Ni allaf ddychmygu galar y teuluoedd a gollodd anwyliaid ar draeth Sousse. O bosibl fod gweld y milwyr yn cario'r eirch o'r awyrennau rhyfel ym maes awyr RAF Brize Norton yn gysur i lawer ohonynt. Rhyfyg fyddai i mi awgrymu nad yw hynny'n wir. Ond o gofio mai eirch y milwyr a laddwyd ar faes y gad a welsom yn cael eu cario felly'r blynyddoedd diwethaf, onid yw galar y teuluoedd yn waeth fyth, gan fod Llywodraeth gwledydd Prydain yn cydnabod (mewn gweithred os nad mewn geiriau) mai colledigion rhyfel oedd y bobl hyn wedi'r cwbl?

Yn ôl adroddiad grwp o feddygon yn Washington, y *Physicians for Social Responsibility*, lladdwyd cymaint â 2 filiwn o bobl gyffredin yn Afghanistan ac Irac ers cychwyn y 'rhyfel yn erbyn terfysgaeth'. Cyn bod mwy o dywallt gwaed, a chyn i fwy o bobl ddiwedddod yn golledigion rhyfel, gweddiwn y bydd Mr Cameron a'i Lywodraeth yn gwneud pob ymdrech bosibl i geisio heddwch a chyfiawnder yn y gwledydd cythryblus hyn.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn oedfa'r bore yn Capel Coch gan y Gweinidog. Estynnwn groeso i Elin Roberts a David Fisher a'u teuluoedd a fydd yn cyflwyno eu merch fach, Cadi Mai Fisher i ofal Duw yn ystod yr oedfa. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Yn yr oedfa am 5.30 o'r gloch, gwasanaethir gan Mr John H Hughes.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 9.30 o'r gloch gan Mr John H Hughes a bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan.

Diolch i bawb sy'n gwasanaethu yn yr oedfaon yn ystod y dydd.

Cofion

MOLI

Cynhelir oedfa MOLI yn Capel Coch am 5.00 o'r gloch nos Sul nesaf, Gorffennaf 12. Bydd aelodau Carmel Llanllechid yn ymuno â ni yn yr oedfa hon, ac felly edrychwn ymlaen at gael eu croesawu.

Wrth groesawu aelodau Carmel atom, mae'n gyfle i ni atgoffa ein gilydd mai arwyddocad yr enw 'MOLI' yw ein bod yn gobeithio rhoi 'Mwy O Le i'r Iesu yn yr oedfa hon fel ym mhob oedfa arall gobeithio.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Bethel, Pentrefoelas am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Gorffennaf 8. Bydd y cyfarfod dan arweiniad y Parchg Gareth Edwards, Capel Coffa, Cyffordd Llandudno, Cad-eirydd y Cyfundeb.

Yn ail ran y cyfarfod bydd y Parchg Dylan Rhys Parry yn cyflwyno tri mater byr (gyda phob sesiwn yn 10 munud neu lai).

1. Materion yn codi o Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr.
2. Bwriad yr Undeb i gael un eglwys o bob Cyfundeb trwy Gymru i lunio a gweithredu Cynllun datblygu Pum Mlynedd.
3. Ymweliad diweddar â Papwa Gini Newydd.

Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth Arfon yng nghapel Carmel (Arfon) am 6.30 o'r gloch nos Fercher, Gorffennaf 15.

Cwpan CIC

Cynhelir noson flynyddol Cwpan CIC i dimau pêl droed 5-yr-ochr oed uwchradd (Blwyddyn 7-10) dan nawdd Trobwynt yng Nghanolfan Gristnogol Tŷ Nant, Abererch nos Iau'r wythnos hon (Gorffennaf 9).

Dechreuir am 5.30 o'r gloch.

Te Mefus

Diolch i bawb a gefnogodd y Te Mefus yn festri Bethlehem, Talybont nos Fercher. Gwnaed elw o dros £650 at y Capel.

Diolch i bawb a weithiodd yn galed i drefnu'r cyfan.

Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr

Cafodd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg dywydd braf ar gyfer ei Gyfarfodydd Blynyddol yn Nant Gwrtheyrn ddydd Iau a dydd Gwener.

Cafwyd amser da ddoe hefyd yn y 'Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr'.

Diolch i Dafydd a Gwenno am eu gwaith yn gofalu am weithgarwch y plant.

Swper Haf Bwrlwm

Bydd aelodau Bwrlwm capel Bethlehem Talybont yn cynnal eu Swper Haf yng Nghlwb Golff Caernarfon nos Fawrth, Gorffennaf 7. Dechreuir am 7.00 o'r gloch.

Pwyllgor y Gymdeithas

Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Ebeneser am 2.00 o'r gloch, ddydd Iau, Gorffennaf 9.

Pwyllgor y Gymdeithas

Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas Undebol Llanberis tua diwedd y Bore Coffi fore Mawrth, Gorffennaf 14. Bydd angen ethol Ysgrifennydd newydd. Mae Miss Dilys Mai Roberts wedi gwneud y gwaith ers blynyddoedd ac wedi dweud mewn da bryd ers blwyddyn na fyddai'n dal ati ar ôl y tymor diwethaf yma.

Beibl Canllaw

Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod fis Awst bydd y *Beibl Canllaw* yn cael ei gyhoeddi.

Nid cyfieithiad newydd fydd hwn ond y Beibl Cymraeg Newydd (Diwygiedig) gyda 'chanllawiau' syml sy'n esbonio'r ystyr ac yn egluro'r neges.

Cynhyrchwyd y *Beibl Canllaw* er mwyn galluogi pobl i ddeall Gair Duw yn well. Mae'r 'canllawiau' yn cynnwys rhai nodiadau sy'n help i egluro adnodau sy'n ymddangos yn dywyll ac yn anodd eu deall ar yr olwg gyntaf; cyfeiriadau ar ymyl y ddalen at adnodau eraill sy'n berthnasol; cyflwyniadau i themâu a llyfrau'r Beibl; lluniau, mynegai, geirfa, a llawer mwy.

Yn ôl y cyhoeddwr: 'Yr hyn sydd yma yw testun y Beibl a chymorth syml i'w ddarllen a'i ddeall, i gyd mewn un man, mewn arddull gyfoes, ac yn Gymraeg!'

Mae hwn yn llyfr gwerth ei gael. Does dim cyfrol debyg wedi ei chyhoeddi yn Gymraeg o'r blaen.

Pris y Beibl Canllaw fydd £25. Mae hynny'n rhesymol iawn o'i gymharu â chyfrolau tebyg yn Saesneg. Ond mae